Cymdeithas Bob Owen

# Y Casglwr

Pob Peth Printiedig

Rhif 43 Tanysgrifiad Blynyddol i'r Ysgrifennydd £3 Mawrth 1991

## PYMTHEG

WELE einioes *Y Casglwr* wedi cyrraedd y pymthegfed blwyddyn. Gan mlynedd yn ôl yr oedd papurau newydd Caernarfon yn wynebu ar eu hoes aur a'r arwyddion o'r difrod mawr oedd i ddod i ran y wasg Gymreig heb ymddangos. Beth tybed a ddywedir gan mlynedd i heddiw? Ond heddiw ni fedr y gyfran fach yma o'r etifeddiaeth wneud dim ond diolch am gefnogaeth a sicrhaodd y parhad. Mae cael pob un i dalu ei danysgrifiad mewn pryd yn dal yn beth poendod — a'r bobl a fedr fforddio orau yw'r talwyr salaf. Ond cafwyd llu o gyfranwyr newydd — a chofiwch na fedrwn fyw hebddoch. Daliwch i anfon. A diolch i'r siopau sy'n hysbysebu — cefnogwch nhw. Ar ben y cyfan diolch i'r darllenwyr.

## Bri o'r newydd ar ddarluniau prin iawn

# ANWYLINI – YR ARTIST GYMREIG

GWELER Y CANOL



*THE OLD LACEMAKER — unig ddarlun Buddug Anwylini Pughe yn y Llyfrgell Genedlaethol.*